BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

At: Aelodau o'r Senedd:
Copi: Yr holl staff cymorth

4 Ebrill 2023

Annwyl Aelodau,

**CRYNODEB O'R CYFARFOD BWRDD A GYNHALIWYD AR 16 MAWRTH 2023**

Cynhaliwyd cyfarfod o Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ddydd Iau 16 Mawrth. Dyma ffocws y cyfarfod:

- Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2023-24;
- Paratoi canllawiau i'r Aelodau a'u staff;
- Adolygiadau thematig y Bwrdd o gymorth staffio;
- Adolygiad symleiddio'r Bwrdd;
- Adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd y Bwrdd;
- Rhaglen waith strategol y Bwrdd.

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd, ynghhyd â **chrynodebau o gyfarfodydd blaenorol**.

Roedd y Grŵp Cynrychiolwyr i fod yn cwrdd yn y cnawd ar 15 Mawrth ond penderfynwyd cynnal y cyfarfod yn rhithwir ar 14 Mawrth oherwydd y penderfyniad i weithredu'n ddiwydiannol ar 15 Mawrth.

## 1. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2023-24

Trafododd y Bwrdd ei newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ar gyfer 2023-24 yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ddiweddar, a chytunoddd yn ffurfiol ar ei Benderfyniad ar gyfer 2023-24. Mae'r newidiadau y cytunwyd arnynt yn adlewyrchu'r cynigion yr **ymgynghorwyd** yn eu cylch yn gynharach eleni, gyda dau eithriad:

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.wales
0300 200 6565

- Bydd yn rhaid i’r Aelodau ddarparu tri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer unrhyw wariant ar nwyddau neu wasanaethau yr amcangyfrifir eu bod yn werth dros £1,500. Y trothwy a gynigiwyd oedd £1,000. Gall Aelodau ofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau mewn achosion eithriadol i ddatgymhwyso'r gofyniad i gael tri dyfynbris.
- Bydd Staff Cymorth yr Aelodau’n cael taliad cyfradd safonol o £600 tuag at gostau byw yn lle’r £400 a gynigiwyd, yn ogystal â chodiad cyflog o 3 y cant ar gyfer 2023-24. Bydd staff cymorth yn cael y taliad cyfradd safonol ar ffurf cyfandaliad oni bai eu bod yn gwneud cais i’w gael fesul rhandaliadau neu’n gwrthod y taliad.

Gosodwyd y **Penderfyniad ar gyfer 2023-24** ar 30 Mawrth 2023. Cafodd **llythyr penderfyniad** sy’n nodi’r newidiadau i'r Penderfyniad ei gyhoeddi a'i anfon hefyd at yr Aelodau ar 30 Mawrth. Yna, bydd pawb a ymatebodd i’r ymgynghoriad yn cael llythyr yn ymdrin â'r pwyntiau a godwyd yn eu hymateb.

Hoffai'r Bwrdd ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwn. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law’n ddefnyddiol iawn i’r Bwrdd wrth iddo wneud penderfyniadau ac rydym yn ddiolchgar iawn i chi am yr amser a’r ymdrechion a oedd ynghlwm wrth eu paratoi.

## 2. Paratoi canllawiau i’r Aelodau ar recrwitio staff

Fel y nodwyd yn y llythyr diweddaru a gyhoeddwyd wedi i’r Bwrdd gwrdd ym mis Chwefror, os caiff costau staff eu hawlio o dan y Penderfyniad, mae paragraff 7.1.4 o’r Penderfyniad yn nodi bod yn rhaid i staff cymorth yr Aelodau gael eu penodi a’u cyflogi’n unol â Pholisi Recriwtio'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau. Mae’r fersiwn bresennol o’r Polisi Recriwtio ar gael ar **fewnrwyd yr Aelodau** (fel y nodir ar y fewnrwyd, mae'r polisi’n cael ei adolygu ar hyn o bryd).

Mae’r Penderfyniad yn cyfeirio at ‘bolisi’ a chytunodd y Bwrdd i newid hwn i 'ganllawiau' a newidiodd y canllawiau i gyd-fynd â’r newidiadau diweddaraf i'r Penderfyniad, y Llawlyfr Cyflogaeth a'r Contract Safonol. Dogfen gan y Comisiwn yn hytrach na’r Bwrdd yw’r canllawiau diwygiedig a byddant yn cael eu cyhoeddi ar fewnrwyd yr Aelodau ddiwedd mis Mawrth / dechrau Ebrill, ar ôl cyhoeddi’r Penderfyniad ar gyfer 2023-24.

### 3. Adolygiadau thematig y Bwrdd o gymorth staffio

Cytunodd y Bwrdd ar gwmpas ac amcanion cam nesaf yr adolygiad o'r cymorth staffio i'r Aelodau a nodir yn y Penderfyniad. Bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn gweithio gyda Thîm Caffael y Comisiwn i baratoi manyleb ar gyfer comisiynu'r adolygiad, gan ddefnyddio cyflenwyr allanol. Caiff yr Aelodau a'u staff ragor o wybodaeth maes o law am amcanion yr adolygiad hwn. Gofynnir am farn yr Aelodau a'r staff cymorth am y fframwaith cyflogau a graddau presennol, yn ogystal â'r rheolau ar gyfer cymhwyso'r fframwaith, fel rhan o'r adolygiad. Y bwriad yw cwblhau'r adolygiad yn ystod 2023-24 a phenderfynu ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r fframwaith wedyn.

### 4. Adolygiad symleiddio'r Bwrdd

Un o amcanion strategol y Bwrdd yw cynhyrchu Penderfyniad symlach i roi hyblygrwydd i'r Aelodau benderfynu ynghylch eu blaenoriaethau eu hunain gan gyflwyno mesurau diogelwch cymesur. Wrth ymgysylltu â'r Aelodau dros dymor yr hydref ynghylch y ffordd y byddai'n well ganddynt weithio, tanlinellwyd pa mor bwysig oedd cael gwybodaeth syml a chlir.

Trafododd y Pwyllgor sut y byddai'n mynd ati i symleiddio'r Penderfyniad. I ddechrau, bydd y gwaith yn canolbwyntio ar leihau mesurau rheoli diangen ar wariant Aelodau ac adolygu'r broses o ddrafftio'r Penderfyniad i'w gwneud yn haws i'r Aelodau a'u staff ddod o hyd i wybodaeth benodol.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod mai dim ond un rhan o'r system yw'r Penderfyniad, a'i bod hefyd yn cynnwys, er enghraifft, y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu a chytunodd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau i gynnal trafodaeth â'r Comisiwn ynghylch unrhyw agweddau ar y system hawliadau ehangach a allai elwa o'u hadolygu.

### 5. Adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd y Bwrdd

Cytunodd y Bwrdd ar ei ymateb i'r adroddiad ar yr Adolygiad Canol Tymor o Effeithiolrwydd a baratowyd gan Bennaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn, a chytunodd i gyhoeddi'r adroddiad a'r ymateb ar wahân, ond yr un pryd, ym mis Ebrill.

## 6. Rhaglen waith strategol y Bwrdd

Aeth y Bwrdd rhagddo i adolygu ei raglen waith strategol ar gyfer gweddill tymor y Bwrdd, a than ddiwedd y Chweched Senedd, a chytunodd ar arweinwyr ar gyfer pob agwedd ar y rhaglen.

Cewch y wybodaeth ddiweddaraf am hyn ar ôl pob cyfarfod o'r Bwrdd. Yn y cyfamser, os hoffech godi materion gyda mi neu'r Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu drwy Glerc y Bwrdd, Huw Gapper, a hynny drwy anfon e-bost at **taliadau@senedd.cymru**.

Yn gywir,



**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.